Cofnodion Bwrdd Rheilffyrdd TrC Cyf

29/05/2026

09:00 – 13:00

Lleoliad: Llys Cadwyn

Yn bresennol

James Price (Cadeirydd), Heather Clash, Alexia Course, Marie Daly, Jan Chaudhry Van der Velde, Peter Strachan

Hefyd yn bresennol

Sam Hadley, Lorenzo Visentin, Stephen Morgan (Cofnodion)

1a. Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Julian Edwards

1b. Hysbysiad ynghylch Cworwm

Gan fod cworwm, croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a datgan fod y cyfarfod yn agored.

1c. Datgan Buddiant

Datganodd James Price fod eu swydd fel Cadeirydd Bwrdd Cardav Avition bellach wedi cychwyn.

2. Sylw i ddiogelwch

Nododd y Bwrdd oedi ac aneffeithiolrwydd yn y ffordd y defnyddir CCTV, gydag amserlenni aneglur, prosesau rhy gyfyngol, ac arafwch cyn cael lluniau'n effeithio ar yr ymateb i ddigwyddiadau. Pwysleisiodd y drafodaeth yr angen i ganolbwyntio ar benderfyniadau buddsoddi, symleiddio gwiriadau'n ymwneud â GDPR, cyd-fynd â gwelliannau i CCTV gyda rhaglenni cyfalaf ehangach, a mabwysiadu arferion gorau o'r tu allan i'r diwydiant rheilffyrdd. Nodwyd fod monitro tameidiog ar draws y sefydliad yn fater allweddol, ynghyd â'r angen am broses cyflwr terfynol glir i allu adolygu lluniau'n gyflym (e.e. o fewn awr). **Cam gweithredu MD/LV: Gwneud cynnig i ELT sy'n nodi allbynnau, newidiadau gofynnol, a galluogwyr i gyflymu ffyrdd o weld lluniau CCTV yn gyflymach ac i ymateb i ddigwyddiadau.**

3. Sylw i gwsmeriaid

Bu'r Bwrdd yn trafod rhoi lle canolog mewn gweithrediadau i brofiad y cwsmer, gan gydnabod bylchau o ran darparu gwasanaeth o safon uchel yn gyson er gwaethaf diwylliant "gwneud y peth iawn" cryf. Gwnaed cynnydd drwy strwythur cliriach, mentrau gwybodaeth gwell, a gweithgareddau ymgysylltu, ond mae problemau o hyd gyda chyfathrebu gwallus, dolenni adborth a diffyg cysylltiad rhwng timau rheng flaen a chymorth. Mae angen cryfhau mewnwelediad y cwsmer, gwella gwybodaeth amser real i staff a chwsmeriaid a rhoi sylw i'r rhwystredigaeth sy'n deillio o'r broses. Mae'r blaenoriaethau'n cynnwys prosesau cyfathrebu mwy cydlynus, gwell defnydd o'r fforymau presennol, cynllunio senarios yn well, a gwella mynediad at wybodaeth ac offer i fagu hyder ac i gynnig profiad mwy cyson.

4. Cofnodion a Chamau Gweithredu

Cymeradwyodd y Bwrdd gofnodion y cyfarfod diwethaf.

5. Adroddiad y Prif Swyddog Gweithrediadau

Roedd perfformiad yn gymysg yn ystod y cyfnod hwn, gyda WCB yn methu targedau OTT3 ond gyda'r tueddiadau'n gwella ar CVL, ac achosion o ganslo ychydig yn is na'r targed er gwaethaf tarfu o ganlyniad i namau seilwaith, problemau OLE, a ffactorau allanol. Mae dibynadwyedd y cerbydau'n bryder sylweddol o hyd, gyda thrafodaethau ar waith â'r gweithgynhyrchwyr [redacted] a gwella argaeledd. Mae heriau â'r seilwaith, gan gynnwys TRS, yn parhau i effeithio ar y gwasanaeth, gydag uchelgais bendant i symud tuag at reilffordd heb TSR pan yn ymarferol. Mae achosion o dresmasu'n parhau'n uchel, gyda chynnydd mewn achosion yn ymwneud â llesiant ac effeithiau gweithredol, sy'n arwain at alwad am ddull mwy sylfaenol, segmentaidd a mwy pendant o bosibl, gan gynnwys adolygu polisi ac ymyriadau ymddygiadol. Mae'r perfformiad o ran cwsmeriaid yn gryf, ond efallai nad yw targedau'n ddigon uchelgeisiol bellach ac y dylid eu hadolygu. Ar y cyfan, mae pwyslais cryf ar gyflymu gwelliant mewn perfformiad, cynyddu atebolrwydd, a phennu safonau gweithredol a chwsmeriaid uwch.

Camau gweithredu:

- **Cyflwyno adroddiad rheoli TSR a blaengynllunio i'r pecyn MD** [redacted]
- **Darparu tair enghraifft o segmentu tresmasu ac adolygu opsiynau is-ddeddfau (gan gynnwys CVL) — MD**

5.1 Rhaeadru'r Fflyd

Mae cynllun fflyd credadwy ar waith, sy'n ddibynnol ar gyflwyno Dosbarth 398s i alluogi rhaeadru cerbydau'n ehangach; mesurau lliniaru tymor byr gan gynnwys defnyddio Dosbarth 153 ac ymestyn y defnydd o Ddosbarth 158s yn hybu capasiti, ond mae risg sylweddol o hyd y bydd cerrig milltir yn llithro'n [redacted] Mae angen penderfyniad ar frys ar ymestyn les Dosbarth 158 ac opsiynau is-les, wedi'i ategu gan fodelu gwell ar gyfer senarios cyflwyno'r fflyd a thybiaethau lliniaru.

6. Adolygiad ariannol

Cafodd y Bwrdd ddiweddariad ariannol, gan nodi bod y system Dynamics 365 yn dal i ymsefydlu, gyda disgwyl adrodd a mewnwelediad gwell yn Ch2 a dadansoddiad mwy tymor hir yn cael ei ddatblygu gan y tîm FP&A, gan gynnwys strategaethau depos a cherbydau. [redacted]

[redacted]

6.1 Mabwysiadu FRS – 101

Bu'r Bwrdd yn ystyried cynnig i fabwysiadu fframwaith amlygiad is, gan grynhoi'r rhan fwyaf o ddatgeliadau ar lefel grŵp, gan nodi nad oes dim trothwyon wedi'u torri a bod yr amseru'n briodol. Mae'r brif effaith yn ymwneud â newidiadau cyflwyno ar gyfer eiddo, peiriannau a chyfarpar, gan gynnwys prisio asedau ac enillion ar bryniadau bargen, heb ddim effaith ar brisiau'n gyffredinol. Cadarnhawyd y bydd elw a cholled sylfaenol yn parhau mewn cyfrifon statudol, ac y bydd goblygiadau rheoleiddiol posibl yn cael eu hegluro, heb ddim canlyniadau anfwriadol arwyddocaol wedi'u nodi. Cymeradwyodd y Bwrdd y penderfyniad i fabwysiadu FRS 101.

7. Y Strategaeth Gweithlu

Bu'r Bwrdd yn trafod risgiau a gwydnwch y strategaeth gweithlu, [redacted]

7. Diogelwch

Nododd y trafodaethau ar ddiogelwch broblem â drysau Dosbarth 67 o dan adolygiad peirianyddol [redacted] Trafodwyd newidiadau i derminoleg gwahardd oddi ar y rheilffyrdd. Roedd archwiliadau rheoleiddio'n bositif ar y cyfan, gyda gwaith yn parhau ar hyfforddiant, goryrru, a rheoli blinder, ynghyd â thrafodaeth ehangach ar helpu staff yn achos troseddau cyllyll.

8. Diweddariad Masnachol

[redacted] Bydd adolygiadau marchnata a masnachol misol yn canolbwyntio ar lwybrau, capasiti a throsi digidol, er gwaethaf rhai cyfyngiadau ar hyblygrwydd arenillion. Mae perfformiad y rhwydwaith yn gryf ar y cyfan, gyda thwf

nodedig ar CVL ac yn Ne a Gorllewin Cymru, er bod twf lein y Gororau'n [redacted]

Camau Gweithredu:

[redacted]

8.1 Symleiddio Tocynnau

Bu'r Bwrdd yn trafod symleiddio tocynnau i hybu PAYG ac i leihau cynnyrch [redacted]

9.1 Diweddariad ar Refeniw Traws Cymru

Nododd y Bwrdd y diweddariad ar refeniw Traws Cymru

10. Diweddariad ar Farchnata

Roedd y drafodaeth yn ymdrin â'r cyfle sy'n codi yn sgil digwyddiadau chwarae pwysig arfaethedig, gan ddisgwyl torfeydd mawr yn achos Lerpwl a Gogledd Cymru, a'r angen i ystyried targedu marchnata ac ymateb gweithredol. Cafwyd diweddariad ar weithredu model marchnata newydd, gyda gwaith yn parhau i wella adrodd ar lefel ymgyrchoedd, i gyflwyno dadansoddiadau mwy manwl o berfformiad o fewn cyfnodau penodol, a thwf gwell ar lefelau trac, gyda rhagor o adrodd i ddilyn yn y cyfnod nesaf. Cafodd yr adborth ar y cysyniad o fws gogledd/de groeso ar lefel uwch, gydag awydd cryf i fod yn fwy uchelgeisiol wrth ddatblygu brand sy'n eiconig ond cydlynus o fewn y rhwydwaith ehangach sy'n caniatáu ar gyfer gwahaniaethu, gan gydnabod bod cryfder brand yn dibynnu ar safon y gwasanaeth; y brif her o hyd yw darparu gwasanaeth sy'n cyflawni perfformiad da'n gyson ac sy'n cefnogi ac yn cadarnhau addewid y brand.

11. Unrhyw Fater Arall

Gan nad oedd unrhyw fater arall, diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu cyfraniadau a daeth y cyfarfod i ben.

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES